# Taith Llyn, Afon a Thref Y Bala

MYNEDIAD I BAWB





### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 3.2km
- Hyd: 1 awr
- Math o daith: Cylchdaith


### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru




Ewch at y llwybr tarmac sydd tu ôl i Swyddfa'r Wardeiniaid ar lan Llyn Tegid. Mae nifer o ffyrdd yn arwain at y llwybr o'r maes parcio.





Dilynwch y llwybr ar hyd glan y llyn. Cymerwch sedd ar y meinciau ar eich dde os am fwynhau'r golygfeydd trawiadol ar draws y llyn tuag at gyfeiriad Llanuwchllyn.




Pan gyrrhaeddwch lwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus ar eich chwith, parhewch yn eich blaen. Peidiwch a dilyn y llwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus.




Dilynwch y llwybr i'r dde wrth basio'r caeau rygbi.




Pan gyrrhaeddwch y ffordd, trowch i'r dde a cherdded ar hyd y palmant am oddeutu 150 medr nes i chi gyrraedd y briffordd.





Croeswch y briffordd yn ofalus ac ewch drwy'r giât sy'n eich arwain ar hyd yr amddiffynfa llifogydd. Dilynwch y llwybr ar hyd yr amddiffynfa, heibio'r man ble mae'r afon Tryweryn a'r afon Dyfrdwy yn cwrdd.




Gwyrwch i'r dde gan barhau i ddilyn y llwybr ar hyd yr afon.




Byddwch yn cyrraedd giât ger pont y briffordd. Ewch drwy'r giât a trowch i'r chwith, gan dilyn y palmant drwy stryd fawr Y Bala.




Pan gyrrhaeddwch y garej, trowch i'r chwith i lawr Heol Aran a pharhau yn eich blaen nes i chi gyrraedd maes parcio.

10



Trowch i’r dde wrth y maes parcio gan ddilyn yr arwyddion am Llyn Tegid.

11



Ewch drwy’r giât sy’n eich arwain drwy’r caeau a pharhewch i ddilyn y llwybr nes i chi gyrraedd glan y llyn. Trowch i’r dde i ddychwelyd i faes parcio Llyn Tegid.